
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (BGC)

Dydd Mercher, 11ain Medi 2019 10:00yb-12:00yp

Galeri, Caernarfon

COFNODION

Presennol: -

ENW	SEFYDLIAD
Emyr Williams (EW)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Jerry Hunter (JH)	Prifysgol Bangor
Cyng. Dyfrig Siencyn (DS)	Cyngor Gwynedd
Cyng. Llinos Medi Huws (LIMH)	Cyngor Sir Ynys Môn
Sioned Rees (SR)	Llywodraeth Cymru
Dr Gwynne Jones (GJ)	Cyngor Sir Ynys Môn
Sian Williams (SW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Catrin Thomas (CT)	Gwasanaeth Prawf
Sian Purcell (SP)	Medrwn Môn
Ffrancon Williams (FfW)	Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Bethan Russell Williams (BRW)	Mantell Gwynedd
Siobhan Adams (SA)	Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn mynychu: -

Nonn Hughes (NH)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Sophie Ann Hughes (SAH)	Cyngor Gwynedd
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Cyngor Gwynedd

Ymddiheuriadau: -

Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Richie Green	Heddlu Gogledd Cymru
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd

EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod, a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

EITEM 2 – CYLCH GORCHWYL – EITEM SEFYDLOG

Croesawyd Emyr Williams i'r gadair am y tro cyntaf. Awgrymodd y dylid cynnig cyfnod penodol ar gyfer tymor cadeirydd er mwyn sicrhau trosiant iach. Cytunwyd i ddiweddarau'r Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r newidiadau yma.

Nodwyd yr angen i benodi is-gadeirydd, a cynigiodd Emyr Williams fod Dyfrig Siencyn yn parhau, gyda Siân Williams yn eilio'r cynnig. Cadarnhawyd Dyfrig Siencyn fel yr is-gadeirydd felly.

EITEM 3 – COFNODION (I'W CYMERADWYO) A MATERION YN CODI: 12/06/19

Cadarnhawyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodaethau. Dyma grynoded o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:

1. Gwneud gwaith ymchwil pellach ar y cynnig o gyfleoedd prentisiaeth ar y cyd – i ganfod os oes gwerth ychwanegol i ni gynnig cyfle/profiad ar draws y cyrff cyhoeddus. – [NH i gyflwyno fel rhan o eitem 4.](#)
2. Ffrancon Williams i gysylltu efo lechyd a Chyfoeth Naturiol Cymru i drafod asedau ymhellach - [FfW i ddiweddarau fel rhan o eitem 6.](#)
3. Yr is-grŵp 'Cartrefi i bobl leol' i ddiweddarau'r Cylch Gorchwyl a'i gyflwyno i'r BGC yn ystod y cyfarfod nesaf - [FfW i ddiweddarau fel rhan o eitem 6.](#)
4. Awgrymiadau am safleoedd posib i'w hanfon at Ffrancon Williams, a'r neges yma i'w atgyfnerthu i aelodau'r is-grŵp 'Cartrefi i bobl leol' - [FfW i ddiweddarau fel rhan o eitem 6](#)
5. Cadarnhau trefniadau sut i gyflwyno adnoddau ar gyfer gwaith y BGC, erbyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi - [FfW i ddiweddarau fel rhan o eitem 6](#)
6. Jerry Hunter i gysylltu efo'r Gwasanaeth Tân i drafod cymryd rhan ym mhrosiect Arfer yr is-grŵp Iaith Gymraeg – [Wedi'i gwblhau, a chynrychiolaeth o'r Gwasanaeth Tân wedi ymuno â'r is-grŵp](#)
7. Aelodau'r Bwrdd i drafod hefo'u swyddogion iaith os oes prosiect sydd angen sylw gan yr is-grŵp – [Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yn yr is-grŵp](#)
8. Nonn Hughes i gysylltu hefo'r Heddlu i drafod ymhellach y cynnig o gael arweiniad gan yr is-grŵp os fyddai angen ar faterion ieithyddol – [Cwblhawyd](#)
9. Sian Williams i ddrafftio llythyr ar ran y BGC i Brif Weinidog Cymru – [SW i ddiweddarau fel rhan o'i chyflwyniad yn eitem 6](#)
10. Sian Williams i roi cyflwyniad ar y cynllun rheoli traethlin yng nghyfarfod mis Medi – [Cwblhawyd](#)
11. Nonn i gysylltu hefo aelodau'r Bwrdd i amlinellu cynnwys cyflwyniad a fyddai gofyn i bob un ei wnaed yng nghyfarfod mis Medi'r Bwrdd i grynhoi eu cynlluniau blynyddol – [Cyflwyniadau wedi eu derbyn gan Ffrancon Williams, Siobhan Adams a Dr Gwynne Jones. Bydd cyflwyniadau pellach yn cael eu darparu yn ystod y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.](#)

EITEM 4 – PAPURAU AR Y CYNLLUN PRENTISIAETHAU AR Y CYD

Gofynnodd NH i unrhyw un sydd â diddordeb bod yn rhan o'r gwaith i roi gwybod iddi. Nododd yr isod ddiddordeb i fod yn rhan o'r gwaith:

- JH - buddiol i Brifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai fod ynghlwm gan fod partneriaeth agos rhyngddynt eisoes a llawer o arbenigedd

- BRW - cyswllt rhwng gwirfoddoli a phrentisiaethau ac felly y byddai'n dda cael cynrychiolaeth o ganolfannau gwirfoddoli'n rhan o'r gwaith
- SW ac EW - rhwystrau'n y maes cynllunio ac mewn meysydd eraill technegol
- Cynghorau Gwynedd a Môn - anawsterau recriwtio ym meysydd gwasanaethau cymdeithasol a phlant. Un enghraifft a grybwyllwyd oedd yr angen am lwybr hyfforddiant i weithwyr cefnogol allu cymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol drwy eu gwaith
- Gwasanaeth prawf - trafferth recriwtio siaradwyr Cymraeg
- SP – anodd cadw gweithwyr yn y trydydd sector oherwydd cytundebau byr. Gweithwyr yn aml yn symud ymlaen i'r sector gyhoeddus. A oes modd ystyried hyn fel rhan o'r gwaith e.e. cydweithio ar gyfleoedd secondio ayb?
- FfJ – y Cynghorau ar y blaen o ran y Gymraeg yn y tимоedd integredig

Nododd EW ei fod yn bwysig bod yn ymwybodol beth mae eraill yn ei wneud yn y maes e.e. y Coleg Cymraeg a Phartneriaeth y Gweithlu (rhanbarthol). Nodwyd hefyd fod angen cydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg yn dilyn negeseuon Aled Roberts am golli ein siaradwyr yn y cyfnod ôl-16.

Mynegodd GJ fod cynghorau'n wynebu rhwystrau – wedi bod yn talu lefi prentisiaethau Llywodraeth Cymru ond heb fod yn glir o'r defnydd a wnaethpwyd o'r buddsoddiad . Pwysleisiodd os am ddatblygu'r gwaith yma fod angen sicrhau fod unrhyw adnodd yn mynd yn ôl yn uniongyrchol i'r sefydliadau. Nododd SR fod trafodaethau'n mynd yn eu blaen am y cynllun lefi ac y bydd yn adrodd yn ôl i'r BGC ar y pwynt hwn.

Nododd SR y dylid edrych ar waith y DWP hefyd gan eu bod yn bartner allweddol, ac ychwanegodd fod y Bwrdd Integredig Iechyd a Gofal hefyd yn edrych ar hyn a bod trafodaethau ynghylch cofnodion y claf wedi ehangu'r sgwrs.

Trafodwyd 2 opsiwn ar gyfer y ffrwd gwaith – ffurfio is-grŵp newydd yn benodol neu gofyn i un sy'n bodoli'n barod arwain e.e. yr is grŵp iaith. Nododd SW os yn bwriadu cyfarch y gwaith fel rhan o'r is-grŵp iaith, y byddai angen ailystyried aelodaeth y grŵp hwnnw i adlewyrchu'r diddordeb yn y gwaith.

Nododd LIMH fod yma gyfle y gall rai pethau weithio'n well ar lefel fwy lleol yn hytrach na rhanbarthol. Cynigiodd fod pob sefydliad yn mapio a gwneud awdit o anghenion eu sefydliadau er mwyn gweld lle mae'r bylchau a dod a'r holl ganlyniadau ynghyd er mwyn blaenoriaethu. Cytunwyd y dylai swyddi dwyieithog a denu siaradwyr Cymraeg fod yn rhan ganolog o'r gwaith yma.

NH i ymgynnull grŵp prosiect i edrych ar hyn.

1. NH i edrych mewn i'r ffordd ymlaen ar y prosiect hwn.
2. Cysylltu gyda'r Comisiynydd i drafod cyfleon cydweithio, a hynny drwy'r is-grŵp iaith
3. SR i adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar faterion y lefi prentisiaethau

EITEM 5 – CYFLWYNIAD GAN POB SEFYDLIAD AR EU BLAENORIAETHAU STRATEGOL

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

- Cafwyd cyflwyniad gan FfW (wedi'i gylchredeg cyn cyfarfod y BGC) a pwysleisiodd yr angen i flaenoriaethu mwy ar ddatblygu economaidd.
- Wrth drafod yr ymyriadau a amlygir, cwestiynwyd sut byddent yn mesur effaith a nododd FfW eu bod wedi comisiynu gwaith i fesur effaith ar iechyd a lles/gwerth cymdeithasol ayb cyn ac ar ôl yr ymyriadau. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, byddent yn cymharu gwariant, ystadegau, swyddi ayb ac yn ei droi yn 'fudd lleol' i'r economi. Nododd eu bod hefyd wedi

buddsoddi yn HACT – sef meddalwedd i fesur gwerth cymdeithasol, a bwriedir ei ddefnyddio i asesu llwyddiant a defnyddio'r gwersi i lywio blaenoriaethau.

- Cwestiynwyd lle mae'r ffocws ar dai gwag/hen stoc. Nodwyd fod y gwaith yma'n cael ei arwain drwy'r Awdurdodau Lleol a'i fod yn faes cymhleth o ran perchnogaeth.
- Pwysleisiwyd yr angen i glywed gan y cymdeithasau tai eraill. Nododd FfW eu bod yn gweithio â 6 cymdeithas arall.
- Cydnabuwyd mai yr is-grŵp perthnasol yw'r lle i'r drafodaeth hon.

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Eglurwyd fod tîm o 40 yn gweithio ar draws y Gogledd a bod adnoddau wedi eu rhannu rhwng y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin. Nododd fod eu gwaith yn dilyn amserlen cynllunio strategol tair-blynedd gyda chynlluniau gweithredol blynyddol ac mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw sicrhau fod blaenoriaethau'n cyd-fynd. (Gwelir y cyflwyniad yn atodedig).
- Croesawodd JH y pwyslais ar y blynyddoedd cynnar a nododd y byddai'n fuddiol cydweithio i bwysleisio'r naratif ynghylch parhad (ymchwil yn dangos fod angen dechrau'n gynnar ac ymyrraeth ddwys sy'n gofyn am brosiectau 20/25 mlynedd). Nododd bryder am gyfarwyddyd HEFCW i beidio gweithio â phlant o dan 16 oed o ran ehangu mynediad a fod ganddo brofiad ac arbenigedd yn y maes. Nododd SA fod yma sefyllfa anodd oherwydd fod arian yn cael ei gyfeirio at y galw presennol a cyfeiriodd at brosiect Dechrau'n Deg sy'n gweithio gyda Maesgeirchan ym Mangor gan nodi fod gwaith yn digwydd ond ei bod yn cydnabod falle fod angen cynyddu gweladwyedd. SA a JH i drafod ymhellach tu allan i'r cyfarfod.

Cyngor Sir Ynys Môn

- Heriau i sicrhau iaith yn y blynyddoedd cynnar.
- Wedi sefydlu hybiau ond eisiau eu tyfu a'u cael yn fwy effeithlon – eisiau parhau i gryfhau ar gydweithio gyda Menter Môn
- Nodwyd fod cydweithio rhwng yr adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol a'r Gwasanaeth Prawf yn llawer cryfach bellach, a bydd gwaith yn parhau i gryfhau'r cydweithio yn ehangach.

Oherwydd cyfyngder amser, cytunwyd i dderbyn adroddiadau'r sefydliadau eraill yn y cyfarfod nesaf.

4. Is-grŵp Cartrefi i bobl leol i drafod rhwystrau tai gwag/hen stoc ymhellach
5. Siobhan Adams a Jeremy Hunter i gael trafodaeth bellach am y blynyddoedd cynnar
6. SAH i sicrhau fod yr adroddiadau eraill ar agenda'r cyfarfod nesaf

EITEM 6 – ADRODDIAD AR GYNNYDD Y BLAENORIAETHAU

Amcan 1 – Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor

Cartrefi ar gyfer pobl leol – Cyflwynodd FfW yr adroddiad a oedd wedi'i gynnwys ym mhapurau'r cyfarfod. Nodwyd fod angen cadarnhau trefniadau cyflogi'r rheolwr prosiect sydd wedi'i glustnodi 1 diwrnod yr wythnos i gefnogi gwaith yr is-grŵp cartrefi. Cytunodd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i gyd-ariannu. Cytunodd Gwynedd i letya'r swydd. Nodwyd fod angen sicrhau cytundeb yr Awdurdod Tân y tu allan i'r cyfarfod.

Nododd FfW fod nifer y safleoedd datblygu a gyflwynwyd yn dilyn cais yr is-grŵp cartrefi yn siomedig. Nodwyd mai 7 sydd wedi'i gyflwyno, a bod 6 yn addas am drafodaeth technegol pellach – pwysleisiwyd fod niferoedd y safleoedd yn hollbwysig i sicrhau costau is a hyfywedd.

Cwestiynwyd a fyddai'r tai arloesol newydd â dyluniad sy'n ateb yr her o fod yn garbon niwtral ac yn sympathetig i'r ardal leol. Cadarnhaodd FfW mai dyna'r bwriad ac y byddent yn cadw llygaid ar anghenion cynllunio ond eto roedd yn pwysleisio am yr angen am safleoedd pellach.

Nodwyd fod trafodaeth yng nghyfarfod diwetha'r Bwrdd ynghylch cyfuno partneriaethau tai Gwynedd a Môn a bod angen trafodaethau pellach ym Môn ar hyn. Ni ymddengys fod hyn wedi digwydd.

7. NH/is-grŵp cartrefi i sicrhau cytundeb yr Awdurdod Tân ynghylch trefniadau'r swydd Rheolwr Prosiect
8. GJ/ LIMH i sicrhau trafodaeth ym Môn ynghylch y cynnig i gyfuno partneriaethau tai Gwynedd a Môn.

Yr Iaith Gymraeg – Cyflwynodd JH y papur oedd yn rhan o bapurau'r Bwrdd.

Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau – Cafwyd cyflwyniad gan SW (yn y papurau).

Nodwyd fod y gwaith o gydweithio gyda Fairbourne yn parhau rhwng Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ond oherwydd lefel dŵr y tir, ansawdd y clawdd a risg llifogydd o bob cyfeiriad, ar hyn o bryd rhagwelir gallu amddiffyn y pentref hyd at 2054 yn unig.

Mae'r sefyllfa'n cael effaith andwyol ar werth tai ayb a fydd yn y pendraw yn cael effaith ar y rheiny sydd wedi ymddeol a fydd angen gofal ond a fydd heb ecwiti – felly'n debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau cymdeithasol. Y sefyllfa bryderus hefyd yn cael effaith ar iechyd meddwl a lles a fydd yn golygu rhagor o alw am wasanaethau iechyd. Gwnaeth DS sylw am y gwaith da mae Lisa Goodyear yn ei wneud gyda thrigolion Fairbourne a nododd y gall y BGC wneud gwaith ar hyn yn benodol ac edrych ar ddulliau gweithredu i ddelio â'r holl sgil effeithiau. Gall y sefyllfa gyda'r gymuned hon wedyn ddarparu gwersi ar sut i ddatblygu i Gymru gyfan.

Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi ysgrifennu at y Llywodraeth i wrthod y syniad mai penderfyniad i'w ddelio ag o yn lleol yw Newid Hinsawdd, a cytunwyd y byddai SW yn drafftio llythyr gan y BGC i gefnogi safbwynt Gwynedd.

Nododd SW eu bod wedi edrych ar yr ardaloedd sydd yn y perygl mwyaf o ran llifogydd a byddent yn edrych yn fanylach ar yr ardaloedd hynny ac yn dod yn ôl at y BGC gyda chynllun i symud ymlaen er mwyn cydweithio â'r cymunedau fel yn Fairbourne. Cadarnhawyd fod hyn yn seiliedig ar ffigurau presennol ein hallyriadau carbon a bod BGC Conwy a Dinbych yn arwain ar y gwaith o edrych sut i leihau hyn – gallwn ddysgu ganddyn nhw. SW am adrodd yn ôl ar eu gwaith hwy yng nghyfarfod y BGC nesaf.

Ychwanegodd fod Network Rail wedi nodi eu bod yn edrych ar newid hinsawdd a'r effaith ar eu rheilffyrdd, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn iddynt flaenoriaethu rheilffyrdd Arfordir Cambria.

Trafodwyd yr angen i ddarparu hyfforddiant i dimau cynllunio ar sut i ymateb i geisiadau a llunio cynlluniau i'r dyfodol. Bydd canllaw newydd TAN15 yn fuan a bydd angen ystyried hwnnw hefyd.

9. SW i ddrafftio llythyr gan y BGC at y Llywodraeth i gefnogi safbwynt Cyngor Gwynedd
10. SW i adrodd yn ôl ar waith BGC Conwy a Dinbych o leihau allyriadau carbon yn y cyfarfod nesaf

Amcan 2 – Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da.

Grŵp Integredig Oedolion - nodwyd fod gwaith integredig yn digwydd yn Ysbyty Gwynedd yn ogystal ag yn y gymuned er mwyn sicrhau fod diwylliant y gwaith yn y ddau leoliad yn cyd-fynd. Nododd FfJ fod y gwaith mwyaf ar hyn o bryd ynghlwm ag edrych ar rwystrau, a bydd hi'n adrodd i'r BGC wrth eu hadnabod gan ei bod yn debygol y bydd angen cefnogaeth/gwaith gan y BGC.

Cwestiynwyd faint o'r gwaith sy'n dibynnu ar gyllid tymor byr megis y Gronfa Gofal Integredig a cadarnhaodd FfJ fod y cyllid hwn yn help i ddechrau ar y daith a'u bod yn edrych ar sut mae cario'r gwaith ymlaen wedyn. Nododd hefyd fod dyblygu'n digwydd yn aml ac felly y byddai cael gwared ar hynny yn ogystal â rhwystrau yn gwneud arbedion.

Nododd SW nad oes cynrychiolaeth o Gyfoeth Naturiol Cymru na'r Parc Cenedlaethol ar yr is-grŵp ac felly y dylid ystyried a fyddai cynrychiolaeth gan un o'r rhain yn fuddiol.

Grŵp Integredig Plant – Cyflwynodd FfJ yr adroddiad sydd wedi'i gynnwys ym mhapurau'r Bwrdd ac nodwyd mai'r brif her wrth symud ymlaen ydi ceisio sicrhau nad yw timau plant a thimau ieuchyd meddwl yn gweithio ar wahân mewn seilos.

11. SW ac EW i drafod presenoldeb ar yr is-grŵp gyda FfJ

EITEM 7 – GOHEBIAETH

Trafodwyd yr ohebiaeth. Yn eu plith roedd gwahoddiad i aelodau'r Bwrdd i ddigwyddiad Newid Hinsawdd ar 18fed Fedi - wedi ei drefnu gan BGCau y gogledd. Cafwyd trafodaeth fod nifer o'r sefydliadau wedi gwneud datganiadau argyfwng hinsawdd ond nad oes sicrwydd a oes gweithredu y tu ôl i'r datganiadau hyn.

EITEM 8 – HERIAU A CHYFLEON – EITEM SEFYDLOG

Cytunodd aelodau'r BGC fod nifer o heriau a chyfleon eisoes wedi eu hadnabod yn ystod y cyfarfod, ac mae angen bwrw ati i gyfarch y rhain.

EITEM 9 – UNRHYW FATER ARALL

Cyfeiriodd CT o'r Gwasanaeth Prawf at femorandwm cyd-ddealltwriaeth i rannu gwybodaeth. Byddai'r Gwasanaeth Prawf yn rhannu adroddiad partneriaeth bob chwarter i'r BGC, ac yn cynnwys data gwasanaeth plant. Bydd CT yn anfon copi o'r memorandwm at NH.

Nododd EW y bydd rhaid iddo ymddiheuro i gyfarfod y BGC mis Rhagfyr gan fod cyfarfod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yr un diwrnod. Cytunwyd felly y bydd DS yn cadeirio'r cyfarfod hwnnw.

12. CT i anfon copi o'r memorandwm at NH